

**Dirprwy Arweinydd y Cyngor • Deputy Council Leader**  
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc •**  
**Cabinet Member for Education and Children & Young People**  
Cynghorydd / Councillor Sian Gwenllian



Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Sian Gwenllian**  
☎ (01286) 679162  
✉ [Cynghorydd.SianGwenllian@gwynedd.gov.uk](mailto:Cynghorydd.SianGwenllian@gwynedd.gov.uk)

Ein Cyf / Our Ref: **SG/LS**  
Eich Cyf / Your Ref:

6 Gorffennaf 2012

Leighton Andrews,  
Llywodraeth Cymru,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd.  
CF99 1NA

Annwyl Leighton Andrews,

**Par: Ymateb Cyngor Gwynedd Ynglŷn â Llefydd Gweigion**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 24 Mai 2012.

Fe gyfeiriwch at nifer o faterion pwysig a heriol yn y llythyr a byddwch yn ymwybodol fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi cychwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddwch yn ymwybodol hefyd fod y Cyngor yn ymroddedig i drawsnewid ei strwythur addysgol er mwyn sicrhau profiadau o safon i'n plant a'n pobl ifanc led-led y Sir ac edrychwn ymlaen at gydweithio ymhellach gyda chwi fel Llywodraeth a Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r dyfodol ar y materion hyn.

Gan fod eich llythyr yn gofyn yn benodol i awdurdodau ymateb i fater llefydd gweigion, gwneir hynny yma.

Fel y gwyddoch, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymateb i'r heriau o ran ad-drefnu ysgolion dan strategaeth a fabwysiadwyd yn 2009 – sef “Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” ac yna, mewn strategaeth oedd yn cwmpasu hefyd yr holl ystod oedran o fewn y Rhaglen Strategol “Tuag at 2025 – Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd”.

Rhydd y Cyngor gryn bwysau i'r ffactor llefydd gweigion o fewn y strategaethau hyn, ond un o nifer o ystyriaethau ydyw wrth drawsnewid darpariaeth addysg ar draws y Sir. Credir mai trwy cyd-blethu nifer o ffactorau y gellir trawsnewid y ddarpariaeth yn llwyddiannus a gellir gwella profiadau plant a disgyblion a chodi safonau, a hynny i gyd mewn system fwy effeithlon.

Drwy ein strategaethau, mae Gwynedd ers 2009 wedi rhoi cynigion ger bron a fyddai'n sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy i'r dyfodol:

- Gall cynlluniau'r Cyngor i ad-drefnu ysgolion a ystyriwyd hyd yma a chynlluniau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, leihau hyd at 900 o lefydd gweigion sydd hefyd yn **lleihau'r ganran o lefydd gweigion yn ysgolion y Sir o 4.7%**
- Mae trafodaethau ar ddyfodol trefniadaeth ysgolion wedi ei gynnal yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn ac Y Gader sydd yn cynnwys **21 o ysgolion** hyd yma
- Bydd **ysgolion gwledig a threfol** yn yr ardaloedd hyn yn **cael eu huwchraddio**

Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH  
01766 771000  
[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

- Mae sicrhau dyfodol addysg wledig oddi fewn i gyfundrefn gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon yn flaenoriaeth. Mae sialens 'gwledigrwydd' yn wynebu'r Cyngor, ac mae'r ardaloedd gwledig ar y cyfan yn gadarnleoedd y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi **sicrhau y bydd addysg wledig** yn cael ei gynnal yn ardaloedd Tywyn, Dolgellau a Bala mewn ysgolion hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol
- Mae cynlluniau arloesol ar droed sydd yn torri tir newydd (datblygir cymunedau dysgu gydol oes yn Y Bala a Dolgellau a sefydlir Ysgolion Ardal Gwledig – ac un o rheini ar ddau safle).
- Buddsoddiad a ddenwyd: bydd y cynlluniau yn arwain at **fuddsoddiad o £44miliwn i wella a datblygu ysgolion**. Llwyddwyd i ddenu dros £20miliwn gan Lywodraeth Cymru.
- Safleoedd Ysgolion: Mae'r cynlluniau yn mynd i arwain at **9 yn llai o safleoedd ysgolion**. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn medru cyfeirio arian cynnal a chadw 9 o safleoedd, ar gyfer gweddill y ddarpariaeth addysg yn y Sir.
- Arbedion a gyflawnwyd: Mae'r cynlluniau y penderfynwyd arnynt eisoes yn mynd i **arwain at tua hanner miliwn (£500k) o arbedion refeniw blynyddol**. Bydd gwerth oddeutu £300k o arian gaiff ei wario'n aneffeithlon ar leoedd gweigion ar hyn o bryd, yn cael ei ddefnyddio mewn modd mwy effeithlon.

Felly, mae Gwynedd eisoes wedi cychwyn ar y daith o anelu at y targed o 15% o lefydd gweigion yn ein hysgolion. Ond rhaid cofio fod y daith hon wedi cychwyn o fan pell – sef 28% o lefydd gweigion (26.5% yn y sector cynradd a 30.7% yn y sector uwchradd). O gymharu a'r sefyllfa yn genedlaethol – mae'n sialens heriol.

Mae Gwynedd wedi bod â'r nifer fwyaf o lefydd gweigion (cynradd ac uwchradd) ac ymysg yr uchaf yng Nghymru ers rhai blynyddoedd, sy'n adlewyrchiad o batrwm ar draws nifer o siroedd gwledig eu natur ar draws Cymru.

Mae her o leihau llefydd gweigion mewn ardal wledig gan fod y dewis amgen ar gyfer darpariaeth addysg yn fwy prin a bod angen ystyriaeth i faterion cludo a phellteroedd teithio disgyblion. Yn ogystal, mae'r opsiynau o ddefnydd amgen o rannau o adeiladau neu safleoedd ysgolion yn fwy cyfyng mewn ardal wledig.

Mae'r Cyngor wedi bod yn weithgar iawn ers 2009 (a chyn hynny) yn ei ymdrech i ddenu arian cyfalaf er mwyn lliniaru'r niferoedd o lefydd gweigion ar draws y Sir.

Cyfeiria Estyn y "*Gall cau ac uno ysgolion fod yn ymarferion anodd a hirfaith ond dyma'r enghreifftiau mwyaf effeithiol o strategaethau a fydd yn cael gwared ar leoedd dros ben ac yn rhyddhau arbedion ar gyfer ail-fuddsoddi i godi safonau.*"


Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi:

*"Felly, mae cael gwared ar leoedd dros ben yn fwyaf effeithiol o ran yr arbedion posibl pan gaiff ei gyflawni trwy ad-drefnu grwpiau o ysgolion i leihau nifer yr adeiladau a'r holl gapasiti. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn gatalydd ar gyfer cynorthwyo awdurdodau lleol i resymoli eu hystâd ysgolion."*

Drwy adnabod mai llefydd gweigion a chyflwr adeiladau oedd y ddau brif griteria i'w ystyried wrth gyflwyno cais am adnoddau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; yn ôl yn Rhagfyr 2011 cyflwynodd y Cyngor gais am £47.9 miliwn (sef 50%) o'r gronfa honno. Serch ymrwymiad y Cyngor i'r 50%, bu i Wynedd dderbyn cyfraniad o £18m o'r rhaglen yma.

Mae gwahaniaeth rhwng dyraniad cyfalaf a llefydd gweigion, yn genedlaethol, yn destun pryder. Nid oes cyswllt rhwng y nifer llefydd gweigion a phatrwm buddsoddiad cyfalaf yn y blynyddoedd diwethaf. Os yw lleihau lefel llefydd gweigion yn flaenoriaeth, yna rhaid cael adnoddau priodol i ymateb i'r her honno:

## Swm Fesul Lle Gwag



Wrth i ni wynebu heriau cynyddol sydd o'n blaen, rydym yn y broses o greu Cynllun Blaenoriaethau newydd yn seiliedig ar ein strategaethau trawsnewid ysgolion. Fel rhan o hyn bydd angen ystyried y canlynol:

- Plethu'r angen i fynd i'r afael â llefydd gweigion o fewn y Cynllun Blaenoriaethau
- Rhoi mwy o ystyriaeth i lefydd gweigion
- Mynd i'r afael â llefydd gweigion yn y sector uwchradd - yn enwedig ym Meirionnydd

Mae argymhellion pendant y gellid ystyried eu gweithredu ymhellach i leihau llefydd gweigion yn benodol fel rhan o'r Cynllun Blaenoriaethau:

- Ail ymweld â chynhwysedd pob ysgol i weld beth yw gwir ddefnydd yr adeiladau a chyfrifo llefydd gweigion yn fwy manwl fel gwaelodlin.
- Addasu cynhwysedd ysgolion er mwyn lliniaru'n well y galw am lefydd ar draws ardal.
- O fewn y dull gweithredu newydd, ystyried yn well y **NIFER** o lefydd gweigion sydd o fewn ysgolion penodol yn ogystal â'r **GANRAN** o lefydd gweigion wrth gyflwyno atebion ad-drefnu.
- Mynd i'r afael â llefydd gweigion sylweddol sydd o fewn ysgolion ym Meirionnydd
- Adnabod ysgolion sydd â llefydd gweigion "sylweddol" gan flaenoriaethu'r sefyllfaoedd hyn
- Parhau i weithredu'r polisi mynediad i sicrhau fod llai o ysgolion cynradd yn derbyn disgyblion dros eu capasiti
- Ystyried gweithredu'r polisi mynediad yn fwy effeithiol i sicrhau llai o symudiad all-ddalgylch diangen ac ystyried ail lunio dalgylchoedd i fynd i'r afael yn well â'r gofyn am leoedd ysgol mewn ardaloedd penodol
- Bydd angen cymryd ymagwedd bragmatig, fwy creadigol, er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd aneffeithlon o adeiladau ysgol gan edrych ar ddefnydd amgen o adeiladau neu rannau o adeiladau a bod yn effro i gyfleon i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau adeiladau ysgolion.

Ein gobaith yw gwireddu'r weledigaeth o "gynnig addysg a hyfforddiant dwyieithog o'r ansawdd uchaf posib" er mwyn sicrhau'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant a phobl ifanc y Sir a'u galluogi i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

O fewn y Cynllun Blaenoriaethau bydd y Cyngor yn amlygu sut y byddai modd i'n cynlluniau drawsnewid y ddarpariaeth addysg ar draws yr ystod oedran, gan leihau llefydd gweigion yn ogystal â chwrdd â nifer o amcanion eraill:

- i. **Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl** - a hynny i holl ddysgwyr y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;
- ii. **Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc** – gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y Sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- iii. **Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith** - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;
- iv. **Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir** – a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
- v. **Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol** – a chyfoethogi profiadau i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn rhan o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach.;
- vi. **Cryfhau'r Iaith Gymraeg** – fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol – a galluogi plant a phobl ifanc gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

Manylir ymhellach ar ein ymateb yn ein Cynllun Blaenoriaethau a fydd yn cael ei drafod gan y Cabinet, a byddwn yn siŵr o anfon copi atoch er ystyriaeth pellach.

Yn gywir,



**Cyng. Sian Gwennlian**  
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac**  
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc**